

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Gorffennaf 4ydd 2016 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. .
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston, Cyngorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Cod Ymddygiad:** Bu i Paul Weston ddatgan cysylltiad yn y mater **8** yn yr Agenda, hefyd bu Alun Edwards a Gari Jones ddatgan cysylltiad yn y mater **10.1** yn yr Agenda.
4. **Cofnodion mis Mehefin** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio hefyd cymeradwywyd y penderfyniadau a wnaed trwy godi llaw.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Trafodwyd eitem 1a o Gofnodion mis Mehefin a gofynnwyd i bawb anfon ymddiheuriad i'r clerwr os ydynt yn methu a mynychu'r cyfarfod, hyn er mwyn penderfynu os oes digon yn bresennol i gynnal y pwyllgorau. Aethpwyd ymlaen i ail eirio rhif 4 yn y Rheoliadau Sefydlog sef bod cworwm o Gadeirydd a tri aelod cyn y medrwn gynnal pwyllgor. Cynigiodd Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio ar y gwelliant yma.
 - 5.2. Peiriannau talu ar y toiledau cyhoeddus dal heb ei tynnu oddi yno, Y clerwr i gysylltu gyda Chonwy ar y mater yma eto.
 - 5.3. Arbenigwyr Cludiant (holiadur) y clerwr i lenwi hwn.
6. **Gohebiaeth.**
 - 6.1. Dim.
7. **Talu Anfonebau:**
 - 7.1. CBSC – Cynigiodd Alun Edwards gyda Paul Weston yn eilio talu'r anfoneb am y sgip gymunedol o £185.00 + TAW £37.00 = **£222.00** gyda siec rhif **100268**.
 - 7.2. Amaethwyr Corwen – Cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb am gompost ac olew i'r cerfluniau o £26.68 = TAW £5.34 = **£32.02** gyda siec rhif **100267**.
8. **Trafod Cyflog y Clerwr:**

Ar ôl trafodaeth byr cynigwyd gan Paul Weston ac eiliwyd gan Edmund Rees bod cyflog y Clerwr yn codi i £10 yr awr a bod yr oriau gwaith yn codi o 13.6 y mis i 15. Hefyd bod y codiad o £15 y mis yn cael ei ôl-ddyddio i Ebrill 2016. Pasiwyd yn unfrydol gan y pwyllgor.
9. **Cais Cynllunio:**

| | |
|-----------|-----------------------------|
| Cais Rhif | 0/42823 |
| Ymgeisydd | Ian Carpenter |
| Cynllun | Diddymu amodau 4 ac 11 |
| Safle | Bryn Dedwydd, Pentrefoelas. |

Ar ôl trafod y mater penderfynwyd na fyddwn yn ychwanegu dim sylwadau.
10. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Cafwyd adroddiad gan y Cyngorydd Sirol a mynegodd fod yna ansicrwydd ar ôl y bleidlais gadael Ewrop.
11. **Unrhyw fater arall:**
 - 11.1. Cais Cynllunio:

| | |
|-------------|--|
| Rhif y Cais | - 0/42916. |
| Ymgeisydd | - Tomos Hughes |
| Safle | - Fron Bella, Pentrefoelas. |
| Cynllun | - Gosod 1 Antena Radio a lle storio radio ategol ar gyfer yr Ymatebwyr Cyntaf. |

Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau gan y Cyngorwyr a chefnogwyd y Cais.
 - 11.2. Cyfrifo ac Archwilio – gan fod rhaid cael rhywun i wirio cysoniadau banc yn chwarterol cynigwyd ein bod yn gofyn i Eirian Roberts ein harchwilydd mewnol ymgymryd a'r gwaith.
12. **Cyfrifo ac Archwilio:**

Archwiliwyd y cysoniadau banc o Ebrill i Fehefin a chafwyd popeth mewn trefn.
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Medi 5ed 2016 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd Alun Owen Dyddiad 07.11.16
Cadeirydd

